

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	9 Tachwedd 2021
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Gareth Wyn Griffith Y Cyngorydd Gareth Thomas
Swyddog Cyswllt:	Dafydd Wyn Williams - Pennaeth Adran yr Amgylchedd Sioned Williams – Pennaeth Adran Economi a Chymuned
Rhif Cyswllt:	32371
Pwnc:	Ymchwil i'r sefyllfa cartrefi modur yng Ngwynedd

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Yn wyneb yr angen i gael gwell rheolaeth ar gartrefi modur, gofynnir i'r Cabinet dderbyn gwaith ymchwil yn Atodiad 1 a chymeradwyo'r canlynol:

- i. Awdurdodi'r Pennaeth Adran Amgylchedd mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Adran Economi a Chymuned i gynnal prosiect peilot ar gyfer defnydd o hyd at 6 o safleoedd parcio'r Cyngor (neu ran o'r safleoedd) sydd o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd, er darparu cyfleusterau i gartrefi modur aros dros nos ac i gynnwys dynodi y lleoliadau, ond yn ddarostyngedig i sicrhau cyllid cyfalaf a'r caniatâdau angenrheidiol.
- ii. Bod adroddiad pellach ar ganlyniadau y peilot yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ymhen tair blynedd.
- iii. Ystyried a gweithredu ar fesurau gorfodaeth i fynd law yn llaw gyda'r uchod.
- iv. Cyflwyno'r gwaith ymchwil i Llywodraeth Cymru a gofyn iddynt Adolygu'r Ddeddf Carafanau a Rheoli Datblygu 1960.

Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Gan ystyried nifer sylweddol o ddefnyddwyr cartrefi modur sydd wedi bod yn ymweld a'r Sir yn ddiweddar a dros y blynyddoedd diwethaf, a'r pryderon sydd wedi eu codi gan gymunedau'r ardal, cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol cynnal gwaith ymchwil i'r sefyllfa yng Ngwynedd.

Mae'r gwaith ymchwil wedi ei gwblhau ac yn Atodiad 1 o'r adroddiad, ac yn cynnwys sail tystiolaeth sydd yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa yn lleol a thu hwnt. Mae'r gwaith ymchwil hefyd yn amlygu'r angen am fesurau ar gyfer rheoli'r sector cartrefi modur yn y Sir yn well, a credir y bydd y penderfyniad a geisir yn gallu cyfrannu tuag at hynny.

CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

1. CEFNDIR

1.1 Mae'r gwaith ymchwil sydd yn Atodiad 1 yn edrych ar:

- Y sefyllfa leol a darpariaeth yng Ngwynedd
- Y cyd-destun cynllunio a materion parcio a thraffig
- Y sefyllfa a'r ddarpariaeth gyfredol yn y DU
- Y sefyllfa a'r ddarpariaeth yn rhyngwladol mewn gwledydd eraill
- Edrych a'r anghenion a thueddiadau perchnogion cartrefi modur
- Barn trigolion a chymunedau Gwynedd am y sector cartrefi modur
- Y sefyllfa yng Ngwynedd 2021
- Canfyddiadau ac argymhellon o ran gwella rheolaeth cartrefi modur yng Ngwynedd

Twf yn y defnydd o gartrefi modur

- 1.2 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer o gartrefi modur sydd wedi eu cofrestru ym Mhrydain gan y DVLA. Nododd y 'National Caravan Council' gynnydd o 71% mewn gwerthiant cerbydau modur rhwng 2019 a 2020 gyda rhesymau COVID-19 a'r gallu i fod yn hunangynhwysol yn gyrru'r cynnydd hwn.
- 1.3 Mae hefyd angen ystyried y cynnydd sylweddol a phoblogrwydd mewn trosi faniau i gartrefi modur. Er fod nifer o'r faniau yn hunangynhwysol ac yn cael eu yswirio fel cartref modur, nid yw faniau o'r math yma yn cael eu cyfrifo gan y DVLA fel cerbydau modur oherwydd bod eu hedrychiad allanol yn fwy tebyg i fan gyffredin.
- 1.4 Nodir fod gwaith ymchwil yn 2019 ar ymweliadau cartrefi modur yn ucheldir yr Alban (North Coast 500) yn tystiolaethu fod ymwelwyr mewn cartrefi modur yn gwario 33% o'u gwariant gwyliau ar lety, gyda'r 67% yn weddill ar bethau fel bwyd a diod, atyniadau a siopa lleol.

Sefyllfa gyfredol yng Ngwynedd

- 1.5 Yng Ngwynedd mae pryderon wedi eu codi mewn nifer o gymunedau ar draws y sir, wrth i nifer gynyddol o berchnogion cartrefi modur benderfynu aros mewn lleoliadau ac ar dir 'cyhoeddus', lle nad oes hawl cyfreithlon i gysgu mewn cerbyd dros nos.
- 1.6 Dengys ffigyrau STEAM 2019 Gwynedd fod 7.8 miliwn o ymwelwyr yn ymweld a'r sir yn flynyddol ac yn cyfrannu £1.35 biliwn i'r economi leol. Cyfrifwyd yn arolwg llety Gwynedd 2018/19 fod 366 feysydd carafan a gweryslla yng Ngwynedd fyddai yn gallu darparu gwasanaeth i gartrefi modur. Ar gyfartaledd roedd 59 llain (pitch) ar gyfer pob maes gweryslla.
- 1.7 Ymddengys ar yr un llaw fod darpariaeth eithaf sylweddol ar gyfer diwallu anghenion gweryslla yng Ngwynedd. Er hyn, rhaid nodi fod nifer fawr o safleoedd carafan a gweryslla bellach yn gweithredu ar werthiant lleiniau tymhorol / 'seasonal pitch' i berchnogion carafanau sydd yn golygu lleihad sylweddol yn y nifer o leiniau teithiol sydd ar gael.

Y cyd-destun cynllunio cyfredol

- 1.8 O safbwynt y cyd-destun polisi cynllunio lleol, y polisiâu mwyaf perthnasol i gartrefi modur yw'r polisiâu sydd yn ymwneud a safleoedd carafanau teithiol, gan eu bod yn dod o fewn diffiniad cyfreithiol o beth yw carafán, Mae'r polisi yn ardal awdurdod

Cynllunio Gwynedd yn caniatáu cynigion yn ymwneud a safleoedd teithiol yn ddarostyngedig i feini prawf penodol. Yn ardal awdurdod cynllunio'r Parc Cenedlaethol, mae'r polisiâu yn atal datblygiad safleoedd teithiol newydd, ond yn caniatáu ymestyn safleoedd presennol, yn ddarostyngedig i feini prawf penodol.

- 1.9 Yn sgil derbyn barn gyfreithiol, a gan y bwysleisio y bydd angen asesu pob un achos yn unigol o ran ffaith a graddfa, mae sail cryf i ddod i gasgliad y bydd y defnydd o dir (e.e. meysydd parcio cyhoeddus, tiroedd eraill ac ati) i gartrefi modur aros dros nos, yn gyffredinol angen caniatâd cynllunio. Mae'n dilyn hefyd y buasai'r defnydd angen trwydded safle o dan ddarpariaeth y Ddeddf safleoedd carafanau a rheoli datblygiad 1960.

Materion Parcio a Thraffig

- 1.10 Sefyllfa bresennol:
- Mae croeso i gartrefi modur barcio yn ein meysydd parcio lle nad oes gennym rwystrau uchder wedi'u gosod.
 - Mae'n ofynnol i gartrefi modur gadw at y cyfyngiadau parcio
 - Ni chaniateir cysgu dros nos mewn unrhyw gerbyd.
- 1.11 Pwerau presennol:
- Yn bresennol, mae gan y Cyngor bwerau i darfu Rhybudd Talu Cosb i fodurwyr sydd yn parcio'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf Rheoli Traffig 2004.
 - Mae cymal 'dim gweryslla dros nos' yn ran o orchymyn cyfreithiol mewn ambell i leoliad.
 - Nid oes gan y Cyngor bwerau i gosbi modurwyr sydd yn parcio cerbydau dros nos mewn mannau sydd gyfochrog a'r ffordd ar hyn o bryd.
 - Mae'r Ddeddf Rheoliadau Traffig 1984 yn caniatáu cyflwyno cyfyngiadau drwy Orchymyn Rheoliadau Traffig (Parhaol), Gorchymyn Rheoliadau Traffig Dros Dro neu Gorchymyn Rheoliadau Arbrofol i gyfyngu / gwahardd parcio.
 - Mae'r Adran Gyfreithiol yn edrych i mewn i'r posibilïadau o ail sefydlu is-ddeddfau oedd yn bodoli ar aros fannau gyfochrog i'r ffordd i'w galluogi i orfodi y sawl sy'n aros ynddynt mewn cartrefi modur dros nos symud ymlaen.
 - Mae'r Adran Amgylchedd a'r Adran Economi eisoes wedi gosod arwyddion 'dim gweryslla dros nos' mewn nifer o leoliadau lle mae cwynion wedi eu derbyn.

Holi perchnogion meysydd Carafanau a Gweryslla yng Ngwynedd (Ebrill 2021)

- 1.12 Fel rhan o'r gwaith ymchwil cynhaliwyd holiadur ar lein gyda pherchnogion meysydd carafan a gweryslla yng Ngwynedd. Pwrpas y gwaith ymchwil oedd darganfod mwy am ddarpariaeth gweryslla'r sir a chanfod barn leol am y sefyllfa.
- 1.13 Derbyniwyd 153 o holiaduron. 41 holiadur wedi ei lenwi yn llawn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar y 41 holiadur oedd wedi ei lenwi yn llawn, a nodir y prif ganfyddiadau isod:

Prif ganfyddiadau:

- Darpariaeth tymhorol yn bennaf rhwng Ebrill a Hydref sydd ar gael
- Cyfartaledd lleiniau 'teithiol' sydd ar gael 14. Ffigwr llawer is na'r cyfartaledd o 59 llain a gyfrifwyd drwy'r ymchwil llety ymwelwyr sydd yn awgrymu bod nifer fawr o leiniau yn cael eu defnyddio ar sail cytundebau tymhorol.
- Lefel deiliadaeth uchel yn ystod y prif dymor Mai – Medi.
- Cynnydd yn y nifer o ymweliadau cartrefi modur wedi ei brofi gan 38 allan o 41 dros y 5 mlynedd ddiwethaf.

- Oddeutu 60% wedi profi cynnydd yn nifer o ymweliadau gan gartrefi modur yn 2020.

Holi perchnogion cartrefi modur

- 1.14 Fel rhan o'r gwaith ymchwil cynhaliwyd holiaduron ar lein er mwyn targedu perchnogion cartrefi modur. Pwrpas y gwaith ymchwil yma oedd darganfod mwy am dueddiadau teithio perchnogion. Targedwyd perchnogion drwy rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol.
- 1.15 Derbyniwyd 12,500 o holiaduron, 8,833 o holiaduron llawn. Er diben y gwaith ymchwil hwn defnyddiwyd yr holiaduron llawn yn unig ac roedd y prif ganfyddiadau'n cynnwys:

Prif ganfyddiadau:

- Teithwyr cyson. 80% yn teithio rhwng 5 a 10 gwaith y flwyddyn.
- 95% yn gerbydau hunangynhwysol.
- 52% ond yn aros mewn un lle am 1 neu 2 noson yn unig.
- 65% yn defnyddio eu cerbydau drwy'r flwyddyn.
- 92.2% yn nodi y byddent yn defnyddio darpariaeth tebyg i 'Aire' pe bai ar gael.
- Dwr ffres, gallu gwaredu gwastraff toiled a gwastraff ysbwriel oedd y tri prif angen pan yn teithio ar wyliau gyda cartrefi modur. Darpariaeth trydan oedd olaf ar y rhestr.
- Pan ar wyliau 68.9% yn defnyddio cymysgedd o arosiadau mewn meysydd gweryslla a campio gwylt.

Anghenion ymwelwyr sydd yn teithio mewn cartrefi modur

- 1.16 Mae gwaith ymchwil diweddar gan CAMPRA ("Campaign for Real Aires") yn crynhoi'r prif wahaniaethau rhwng ymwelwyr sydd yn teithio gyda phabell / carafan ac ymwelwyr sydd yn teithio gyda cartrefi modur. Mae'r prif wahaniaeth o ran arferion ac anghenion ymwelwyr sydd yn teithio gyda cartrefi yn cynnwys:
- Yn ffafrio lleoliadau sydd mewn trefi neu bentrefi neu o fewn pellter cerdded i wasanaethau megis siopau, tai bwyta ac ati.
 - Yn teithio drwy'r flwyddyn ond yr arhosiad yn yr un lle yn tueddu i fod 24 i 48 awr.
 - Y cartref modur yw'r unig gerbyd – ac yn ddibynnol ar feic, cerdded neu / a trafndiaeth cyhoeddus.
 - Y gwasanaethau sydd eu hangen yn arferol yw dwr, cyfleusterau gwaredu gwastraff a sbwriel.
 - Y diddordebau'n cynnwys defnyddio bwytai lleol, ymweld a chanol trefi ac atyniadau lleol.
 - Yn dod ag ychydig o fwyd ar gyfer y siwrne ac yna'n defnyddio'r bwytai lleol.

Darpariaeth ar gyfer cartrefi modur yn y DU ac yn ehangach

- 1.17 Mae enghreifftiau o ardaloedd yn y DU sydd wedi addasu neu ddarparu meysydd parcio ar gyfer cartrefi modur, gydag eraill wedi datblygu cyfleusterau "aires" llawn fel y ceir yn Ewrop. Yn syml, ardal barcio ddynodedig dros nos i'w defnyddio gan gartrefi modur cwbl hunangynhwysol ydi "Aire".
- 1.18 Mae'r gwaith ymchwil yn amlygu nad oes cysondeb o ardal i ardal ac er fod ambell i awdurdod lleol wedi datblygu cynlluniau penodol ar gyfer cartrefi modur, mae'r

mwyafrif o awdurdodau yn parhau i ymdrin a chartrefi modur yn unol a gofynion y 'Caravan Sites & Control of Development Act 1960'.

- 1.19 Yng ngweddill Ewrop, mae cysgu mewn cartrefi modur dros nos yn cael ei weld fel 'parcio' a dim 'gwersylla', ac mae gwledydd megis Ffrainc ar Almaen yn gwahaniaethu rhwng gweithgaredd cartrefi modur a carafan / pebyll.
- 1.20 Yn Ewrop (tua allan i'r DU) mae darpariaeth eang o gyfleusterau ar gyfer cartrefi modur. Yn Ffrainc, Yr Almaen ar Eidal gellir darganfod cyfleusterau "Aire" (Ffrainc), "Stellplatz" (Almaen) neu "Sostas" (Eidal) yn bron iawn holl brif drefi a phentrefi y wlad.
- 1.21 Y bwriad yw annog ymwelwyr sydd yn teithio gyda cerbydau modur i aros mewn tref neu bentref er mwyn cynnig elfen o fudd economaidd i'r gymuned leol a chael rheolaeth well dros y sector.

Canfod barn trigolion a chymunedau Gwynedd

- 1.22 Fel rhan o'r gwaith ymchwil, yn ystod yr haf 2021 cynhaliwyd ymgynghoriad ar lein am gyfnod o 6 wythnos gyda holiadur er mwyn canfod barn trigolion Gwynedd. Roedd yr holiadur yn holi os oedd cartrefi modur yn broblem a'i peidio, oedd angen mwy o reolaeth o gartrefi modur a sut i wneud hynny, ac os oedd cefnogaeth i dreialu cyfleuster fel "aires". Derbyniwyd 4,868 o ymatebion gyda 2,169 cyflawn, gyda'r prif ganfyddiadau o'r ymatebion cyflawn yn cynnwys:

- Canran uchel o drigolion lleol yn nodi fod problemau yn eu hardal oherwydd cartrefi modur. 46.1% yn nodi ar gyfnodau e.e. yr haf, penwythnosau a 17.9% yn nodi ei fod yn broblem gydol y flwyddyn.
- Mwyafrif o drigolion lleol yn datgan mae treialu syniadau newydd e.e. cyfres o 'aires' mewn safleoedd mwy trefol gan ddefnyddio meysydd parcio cyfredol y Cyngor neu fusnesau preifat fyddai datrysiaid mwyaf addas (1,599 yn cefnogi 73.7%)
- 69.2% yn datgan y byddent yn hapus gweld treialu defnydd o feysydd parcio mewn lleoliadau mwy trefol a chaniatáu parcio dros nos am gyfnod penodol e.e. 48 awr.

Sefyllfa yng Ngwynedd 2021

- 1.23 Mae'r Cyngor ar y cyd gyda phartneriaid wedi rhoi mesurau mewn lle ar y ddaear er mwyn ceisio cael rheolaeth gwell o gartrefi modur dros y ddwy flynedd diwethaf, a rhoddir trosolwg o hyn yn rhan 6 o'r gwaith ymchwil.

Prif ganfyddiadau'r gwaith ymchwil

- Mae'r sector cartrefi modur wedi datblygu fwy yn y blynyddoedd diwethaf gyda'r tueddiadau'n rhagdybio y bydd twf pellach dros blynyddoedd i ddod.
- Mae arferion ac anghenion perchnogion cartrefi modur o ran y ffordd maent yn treulio eu gwyliau yn wahanol i 'wersylla mwy traddodiadol'.
- Ymddengys fod y ddarpariaeth sydd ar gael gan feysydd carafan a gwersylla Gwynedd ddim bob amser yn diwallu anghenion a phatrwm teithio perchnogion cartrefi modur.
- Mae mwyafrif o feysydd carafanau a gwersylla yn agored o Ebrill i Hydref ac ar adegau penodol mae awgrym yn enwedig yn ystod 2020 fod materion capasiti.
- Mae enghreifftiau yn yr Alban ac yn Lloegr o fesurau sydd wedi eu rhoi mewn lle i geisio diwallu anghenion defnyddwyr cartrefi modur, gyda hyn yn aml yn cynnwys defnydd dros nos o feysydd parcio, gyda chyfyngiadau perthnasol.

- Nododd 92.2% o ddefnyddwyr cartrefi modur y byddant yn defnyddio darpariaeth tebyg i "Aire" pe bai ar gael.
- Mae darpariaeth o gyfleusterau "Aire" (neu debyg) wedi eu sefydlu mewn sawl gwlad arall yn Ewrop, a'r bwriad yw annog ymwelwyr sydd yn teithio gyda cerbydau modur i aros mewn tref neu bentref, er mwyn cynnig elfen o fudd economaidd i'r gymuned leol a chael rheolaeth well dros y sector
- Yn sgil yr ymgynghoriad cyhoeddus, mae canran uchel yn cydnabod problemau yn eu hardaloedd yn sgil cartrefi modur, gyda'r mwyafrif (73.7%) yn cefnogi'r syniad o dreialu cyfleusterau debyg i "aires".

1.24 Mae'r tystiolaeth sydd yn deillio allan o'r gwaith ymchwil yn amlygu'r angen i edrych ar fesurau posib er mwyn cael gwell rheolaeth o gartrefi modur yng Ngwynedd, ac yn cynnwys argymhellion posib ar gyfer ceisio cyflawni hyn. Mae'r dystiolaeth yn dangos fod cefnogaeth yn dilyn ymgynghoriadau gyda'r cyhoedd a'r sector cartrefi modur i fod yn treialu cyfleuster tebyg i "aires", a credir fod hyn angen mynd law yn llaw gyda mesurau yn ymwneud a rheolaeth a chodi ymwybyddiaeth fel a nodir yn yr argymhellion. Amlygir hefyd yr angen i adolygu'r Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygiad 1960, a rhoi ystyriaeth i sut mae'r sector yma wedi newid ers hynny.

2. CAMAU NESAF AC AMSERLEN PERTHNASOL

2.1 Os cytunir gyda'r penderfyniad a geisir, bydd treialu'r defnydd o hyd at 6 o safleoedd parcio'r Cyngor (neu ran o'r safleoedd), i ddarparu cyfleusterau i gartrefi modur aros dros nos angen buddsoddiad cyfalaf. Bydd y buddsoddiad yn angenrheidiol er mwyn cydfynd a'r gofynion o safbwynt cynllunio, trwyddedu ac unrhyw ofynion eraill perthnasol. Mae'n anodd iawn rhoi swm pendant ar y buddsoddiad cyfalaf fydd ei angen ar gyfer hyd at 6 safle, gan y bydd hynny'n debygol o amrywio o safle i safle, yn seiliedig ar pa isadeiledd a gwasanaethau sydd ar y safle parcio ar hyn o bryd, a beth sydd ei angen yn ychwanegol i gwrdd a gofynion cynllunio, trwyddedu, parcio ac ati. Felly, rydym wedi adnabod swm dangosol o hyd £90,000 (seiliedig ar £15,000 fesul safle) a hyd at £10,000 am ffioedd proffesiynol (ar gyfer ymgeisio am ganiatâd cynllunio, trwydded safle ac ati), sydd yn rhoi buddsoddiad cyfalaf dangosol o £100,000. Mae posibilrwydd y gellir denu grantiau i helpu gyda'r costau cyfalaf ond ni ellir gwarantu hynny ar hyn o bryd. Y bwriad felly yw cyflwyno bid am £100,000 o arian cyfalaf i gronfa trawsffurfio'r Cyngor, ac os yn llwyddiannus, dyma'r camau nesaf gan nodi fod yr amserlen yn ddangosol:

Cam 1: Gwaith cyn cyflwyno ceisiadau (Cynllunio a Thrwyddedu) i gynnwys cyfarfodydd a mewnbwn y Gwasanaethau perthnasol - cyn diwedd Rhagfyr 2021

Comisiynu darn o waith ymchwil ar safleoedd posib i'w hasesu ar gyfer anghenion cynllunio, trwyddedu, parcio ac unrhyw anghenion eraill. Bydd y matrices sydd wedi ei baratoi fel rhan o'r gwaith ymchwil yn cynorthwyo gyda hyn o safbwynt cynllunio, gydag amodau safonol yn ystyriaeth ar gyfer gofynion trwyddedu. Bydd hyn hefyd yn cynorthwyo gydag adnabod costau mwy manwl a chywir ar gyfer y buddsoddiad cyfalaf, fydd hefyd yn ystyriaeth wrth adnabod hyd at 6 o safleoedd fydd destun y treial, ac i baratoi cynlluniau ar eu cyfer.

Cam 2: Cyflwyno ceisiadau (Cynllunio a Thrwyddedu i ddilyn) cyn diwedd Chwefror 2022

Bydd y ceisiadau fydd yn cael eu cyflwyno'n seiliedig ar y gwaith o Cam 1

Nodir hefyd y bydd gwaith yn mynd ymlaen (cyn belled a bo modd) gyda'r broses o addasu / creu'r gorchymyn, yn ddibynnol ar dderbyn caniatâd cynllunio, yn ogystal

ac ystyriaeth o'r mesurau gorfodaeth ychwanegol y gellir eu rhoi mewn lle fel bod hyn yn mynd law yn llaw gyda darpariaeth o'r cyfleusterau.

Cam 3: Yn ddarostyngedig i Cam 2, comisiynu gwaith ar y ddaear ar gyfer datblygu'r cyfleusterau cyn diwedd Mehefin 2022

Cam 4: Cyfleuster(au) yn weithredol – y cyntaf yn weithredol cyn diwedd Mawrth 2023

- 2.2 Nid yn unig y bydd y treialu'n gyfle i asesu sut mae'r cyfleusterau yn gweithredu, bydd hefyd yn help i adnabod beth fydd y gofynion o safbwynt rheolaeth, cynnal a gorfodaeth, yr incwm fydd yn cael ei greu o'r defnydd, ac os oes angen adnoddau ychwanegol a'i peidio ar gyfer gweithrediad effeithiol y cyfleusterau.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Gallaf gadarnhau fod y Gwasanaeth Cyfreithiol wedi cefnogi y gwaith ar baratoi yr adroddiad yma. Mae cynnal peilot yn ymddangos yn ffordd synhwyrol o geisio canfod ymateb i'r cynnydd yn mhoblogrwydd Cartrefi Modur. Rwy'n nodi fod cyffelybiaeth yn cael ei dynnu a darpariaeth "Aires" ar y cyfandir. Er y gellir gweld fod trefniadau o'r fath yn cynnig darlun o ddarpariaeth posib rhaid dal mewn cof fod y sefyllfa rheoleiddio yn Ewrop yn llwyr wahanol I Gymru. Mae'n bwysig hefyd nodi ein bod yn awdurdod cynllunio lleol a thrwyddedu safleoedd carafanau. Felly, mae disgwyliadau uchel o ran priodoldeb ein trefniadau. Ond, yn gyffredinol mae'r argymhellion yn briodol ac rwy'n cefnogi'r cais penodol i adolygu'r ddeddfwriaeth safleoedd carafanau gan fod hyn yn bwydo yn syth i mewn i hawliau datblygu caniataëdig.

Pennaeth Cyllid:

Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir, yn enwedig y bwriad i dreialu'r defnydd o hyd at 6 o safleoedd parcio'r Cyngor i ddarparu cyfleusterau i gartrefi modur aros dros nos. Mae paragraff 2.1 yn rhoi darlun amlinellol o gostau cyfalaf y peilot, gan nodi y bydd angen bid o'r Gronfa Trawsffurfio os na fydd ffynonellau grant ar gael. Os cyflwynir bid o'r Gronfa Trawsffurfio, bydd angen datblygu a chymeradwyo dadansoddiad manwl o'r costau.

Atodiadau

Atodiad 1 Y Gwaith Ymchwil [DRAFFT] sydd yn cynnwys 3 atodiad.
